Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro awdurdod lleol sy'n achosi pryder sylweddol

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
**Neuadd y Dref**
**Wrecsam**
**LL11 1AY**

**Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion ar ôl arolygiad craidd 2019 a bydd yn cael ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol achosi pryder sylweddol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Gwella deilliannau i ddysgwyr ar frys, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4**

Ers yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei drefniadau'n fuddiol i gefnogi gwelliant ysgolion. Mae ychydig o benodiadau allweddol wedi ychwanegu capasiti gwerthfawr at waith y gwasanaeth. Mae swyddogion yn yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r arweinwyr craidd a'r ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn y consortiwm rhanbarthol, sef GwE. Gall ysgolion elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth perthnasol gan ymgynghorwyr cefnogi gwelliant pynciau yn y consortiwm rhanbarthol. Mae gwaith y partneriaid hyn yn fwy cyflenwol erbyn hyn, ac mae gan ysgolion ddealltwriaeth gliriach o'r rôl sydd gan bob un ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn gadarnhaol am welliannau yn ansawdd y cymorth a ddarperir gan dîm yr awdurdod lleol.

Mae systemau cryfach ar waith erbyn hyn i gasglu adborth o ymweliadau yn canolbwyntio ar wella ysgolion. Mae nodiadau ymweliadau yn cofnodi'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw yn briodol, sy'n darparu trosolwg clir o gymorth buddiol. Nid yw'r awdurdod lleol yn adolygu nac yn herio'r dystiolaeth y maent yn ei derbyn yn ddigon da i sicrhau ei bod yn rhoi golwg drylwyr iddynt o'r effaith a gaiff cymorth ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a safonau'n gyffredinol.

Mae swyddogion wedi sefydlu sawl dull buddiol sy'n cynorthwyo arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau i sicrhau gwelliant. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau '360' lle mae swyddogion yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion i gasglu tystiolaeth am agweddau ar waith yr ysgol sy'n ategu calendr sicrhau ansawdd yr ysgol ei hun. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol wedi annog darparwyr i weithio gyda'i gilydd mewn 'Cynghreiriau' yn hyrwyddo cydweithio gwerthfawr rhwng ysgolion sy'n canolbwyntio ar feysydd diddordeb cyffredin neu flaenoriaethau tebyg. Megis dechrau cael eu datblygu y mae'r dulliau addawol hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith ar ddysgu a chynnydd.

Mae swyddogion ar draws y gwasanaeth bellach yn cymryd rhan yn adeiladol mewn cyfarfodydd rheolaidd 'Tîm o amgylch yr ysgol' a grwpiau amlasiantaethol. Mae'r fforymau hyn yn rhoi cyfleoedd addas i swyddogion ystyried y cymorth mwyaf priodol ar gyfer pob darparwr, ac adolygu adborth gan swyddogion, ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant pynciau. Caiff ysgolion sydd angen cymorth mwy dwys eu trafod mewn cyfarfodydd tymhorol 'Bwrdd Ansawdd', a phenderfynir ar gamau pellach. Gan fod y cylch sicrhau ansawdd hwn ar ei ffurf gyntaf o hyd, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y dull.

Mae gan yr awdurdod lleol afael cadarnach ar gryfderau a gwendidau cyffredinol ei ysgolion, yn enwedig o ran arweinyddiaeth a darpariaeth. Yn gyffredinol, mae swyddogion yn nodi ysgolion sy’n achosi pryder yn gynharach, yn enwedig pan fydd angen cymorth ar gyfer arweinyddiaeth. Mae llai o ysgolion yn achosi pryder yn yr awdurdod lleol nag ar adeg yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiad yr awdurdod lleol o ddysgu a chynnydd disgyblion yn gyffredinol yn manteisio’n ddigon da ar dystiolaeth uniongyrchol, ac mae’n dibynnu’n ormodol ar ddeilliannau diweddar yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 2: Gwella presenoldeb, lles ac ymddygiad disgyblion ysgol uwchradd**

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae’r Cyngor wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i sicrhau gwelliannau yn y Gwasanaeth Addysg ac Ymyrraeth Gynnar. Mae hyn wedi galluogi’r prif swyddog i ailstrwythuro’r gwasanaeth a datblygu ei gapasiti yn llwyddiannus i gefnogi presenoldeb, ymddygiad a lles. Mae penodi trydydd pennaeth gwasanaeth i arwain cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi datblygu a chryfhau darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer y meysydd hyn.

Mae swyddogion ar draws y gwasanaeth yn angerddol ac wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau cynaledig mewn darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion. Ers ei phenodi, mae’r pennaeth gwasanaeth ar gyfer cynhwysiant ac ADY wedi gwerthuso darpariaeth yr awdurdod lleol yn ofalus, ac wedi gwneud newidiadau allweddol i ymateb i’r materion a nodwyd. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y cymorth ar gyfer presenoldeb ac ymddygiad a gynigir i ysgolion a disgyblion ar draws yr awdurdod. Mae’r awdurdod wedi penodi swyddog yn ddiweddar i gymryd cyfrifoldeb strategol am ddatblygu strategaeth ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion o fis Medi 2023.

Mae’r awdurdod lleol wedi datblygu ymagwedd strategol effeithiol at wella presenoldeb. Mae’r awdurdod lleol yn dadansoddi data presenoldeb yn fforensig i nodi patrymau a thueddiadau ar draws ysgolion, clystyrau, grwpiau blwyddyn a grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae wedi adolygu ei bolisïau a’i weithdrefnau i hyrwyddo presenoldeb da ar ôl y pandemig ac wedi rhannu arweiniad gydag ysgolion, gan gynnwys defnyddio hysbysiadau cosb benodedig.

Mae swyddogion gwaith cymdeithasol addysgol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr i drafod data lefel ysgol a strategaethau i hyrwyddo presenoldeb da. Mae’r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio’n effeithiol ar faterion allweddol fel defnyddio cod ‘B’ i gofnodi absenoldeb a rhwystrau rhag presenoldeb da sy’n wynebu disgyblion unigol. Mae’r gwasanaeth gwaith cymdeithasol addysgol yn darparu cymorth gwerthfawr i helpu ysgolion i fynd i’r afael ag absenoliaeth barhaus ac yn gweithio o fewn y dull ‘tîm o amgylch yr ysgol’ i deilwra ymagweddau at anghenion ysgolion unigol. Yn ychwanegol, mae’r awdurdod lleol yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol am bresenoldeb a gwaharddiadau o fewn ‘Tîm o amgylch yr ysgol’ a chyfarfodydd amlasiantaethol. Mae staff ar draws meysydd gwasanaeth a GwE yn ymwybodol o gryfderau a meysydd i’w gwella mewn presenoldeb a gwaharddiadau mewn ysgolion unigol, ac yn aml yn gweithio gyda’i gilydd i gynnig cymorth ar gyfer materion cysylltiedig. Er enghraifft, mae’r gwasanaeth llwybrau amgen yn cynorthwyo disgyblion nad ydynt yn mynychu’r ysgol yn rheolaidd i

ymgysylltu o'r newydd â bywyd ysgol. O ganlyniad, mae ffigurau presenoldeb ar gyfer Wrecsam yn cymharu'n ffafriol â ffigurau presenoldeb ar gyfer Cymru.

Mae'r awdurdod lleol yn datblygu ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn briodol. Mae darpariaeth yn cynnwys 'Stiwdio Hafod' lle mae disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 yn elwa ar gymorth am gyfnod penodol cyn dychwelyd i ddarpariaeth brif ffrwd. Mae gwaith i ddatblygu canolfan ymgysylltu sy'n cynnwys darpariaeth therapiwtig yn parhau. Mae'r awdurdod lleol yn dechrau cynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol yn briodol trwy'r gwasanaeth llwybrau amgen. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddatblygu pecyn cymorth teilwredig ar gyfer disgyblion unigol. Maent yn eirioli dros ddisgyblion unigol ac yn trefnu cymorth o feysydd eraill o fewn y gwasanaeth addysg ac ymyrraeth gynnar i helpu disgyblion i ymgysylltu â'u dysgu a chynnal eu lleoedd mewn ysgolion prif ffrwd. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth llwybrau amgen yn gweithio gyda gwasanaeth ieuenctid, cyfiawnder ieuenctid a thîm Wrecsam Egnïol i gynnig cymorth i gael disgyblion i ymgysylltu â dysgu o'r newydd. Mae'r awdurdod lleol yn dechrau gweld sut mae'r gwaith hwn o fudd i ddisgyblion unigol, er ei bod yn rhy gynnar i weld yr effaith ar ddata gwaharddiadau. Yn ychwanegol, mae wedi adolygu ei weithdrefnau gwahardd yn briodol i sicrhau bod disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn cael mynediad at addysg mewn modd amserol.

Mae'r awdurdod lleol yn meddu ar ddealltwriaeth well o'r ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar les plant a phobl ifanc. Mae swyddogion yn dadansoddi gwybodaeth o arolygon disgyblion yn effeithiol i nodi problemau, llywio cynlluniau a chynnig cymorth. Mae'r tîm iechyd a lles yn gweithio'n dda gydag ysgolion a chlystyrau i nodi patrymau a thueddiadau a datblygu cynlluniau gweithredu iechyd a lles ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r tîm iechyd a lles ac yn cydweithio'n briodol i ddatblygu eu darpariaeth ynglŷn â'r materion allweddol a nodwyd.

**Argymhelliad 3: Cryfhau'r cydweithio ar draws meysydd gwasanaeth yn gysylltiedig â phob agwedd ar les**

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu ymagwedd gydweithredol a chydlynus effeithiol at gydweithio ar draws gwasanaethau. Erbyn hyn, mae timau'n meddu ar y gallu a'r arbenigedd gofynnol sy'n eu galluogi i gynorthwyo ysgolion a disgyblion unigol yn briodol. Mae ailstrwythuro gwasanaethau'r awdurdod lleol ynghyd â chydleoli timau yn cyfrannu'n llwyddiannus at y cydweithio a chyflwyno gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae hyn yn cefnogi lles disgyblion mewn ysgolion yn dda.

Ar draws meysydd y gwasanaeth addysg, mae rolau a chyfrifoldebau yn gliriach nag oeddent ar adeg yr arolygiad. Mae'r awdurdod yn uchafu ei adnoddau a lefel arbenigedd swyddogion yn effeithiol trwy'r trefniadau cydweithio cryfach. I gryfhau gweithio amlasiantaethol ymhellach, mae'r awdurdod wedi sefydlu grŵp lles gyda chynrychiolaeth o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs), gwasanaethau gwella ysgolion, ysgolion, a swyddogion yr awdurdod lleol. Mae'r grŵp hwn yn darparu dull cydlynus ar gyfer cynorthwyo ysgolion, sy'n cynnwys hyfforddiant ac ymyriadau. Caiff tueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg ar draws gwasanaethau ac ysgolion eu nodi gan alluogi gweithwyr proffesiynol i flaenoriaethu adnoddau.

Mae’r awdurdod lleol wedi cyflwyno ystod o offer asesu perthnasol mewn ysgolion i ennill dealltwriaeth ddyfnach o les disgyblion. Mae swyddogion yn dadansoddi’r data asesu yn effeithiol ac yn gydweithredol gydag ysgolion i dargedu ymyriadau priodol ar gyfer disgyblion unigol. Mae’r ymyriadau hyn yn aml yn cynnwys gweithio ar draws gwasanaethau ac ymglymiad gan asiantaethau allanol, lle bo’n briodol. O ganlyniad, mae ymyriadau’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynorthwyo disgyblion i gynnal eu lleoliad mewn ysgolion prif ffrwd. Mae trefniadau sicrhau ansawdd addas ar waith ar draws y meysydd gwasanaeth i sicrhau gwelliant.

Mae swyddogion yn gweithio’n dda gydag ysgolion ar gyfer datblygu ymagweddau ysgol gyfan at iechyd emosiynol a lles meddyliol i gryfhau trefniadau ar gyfer disgyblion ymhellach. O ganlyniad, mae gan ysgolion ddealltwriaeth well o’r ffactorau sy’n effeithio’n negyddol ar les disgyblion i dargedu cymorth yn fwy effeithiol.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella ar draws yr holl wasanaethau addysg**

Mae’r prif weithredwr wedi darparu arweinyddiaeth strategol bwyllog ac ystyriol i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau addysg yn effeithiol ers yr arolygiad yn 2019. Penodwyd prif swyddog newydd ar gyfer addysg ac ymyrraeth gynnar yn 2020, ac mae hi wedi arwain newid diwylliannol yn y ffordd mae gwasanaethau addysg yn gweithio gyda’i gilydd i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad. Arweiniodd ailstrwythuro’r adran hefyd, a gwnaeth benodiadau allweddol i feithrin gallu mewn meysydd gwaith pwysig. Mae cydleoli staff sy’n gweithio yn yr adran addysg ac ymyrraeth gynnar wedi cefnogi gweithio integredig cryfach.

Roedd arweinydd y Cyngor a’r aelod arweiniol ar gyfer addysg ill dau yn eu swydd adeg yr arolygiad. Er gwaethaf y siom cychwynnol â chanlyniad yr arolygiad, fe wnaethant gydnabod bod angen gwelliant, ac maent wedi sicrhau bod y Cyngor yn blaenoriaethu hyn. Er enghraifft, rhoddodd y Cyngor £500,000 yn ychwanegol at y gyllideb flynyddol ar gyfer gwasanaethau addysg ac ymyrraeth gynnar.

Mae’r awdurdod lleol wedi datblygu ymagwedd fuddiol a systematig at werthuso gwasanaethau addysg a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cynlluniau i wella gwasanaethau addysg yn glir ar lefelau strategol a gweithredol, ac fe gaiff camau gweithredu eu targedu’n briodol at feysydd sydd angen eu gwella fwyaf. Er bod ansawdd y cynllunio wedi gwella ers yr arolygiad, mae cynlluniau busnes weithiau’n aneglur ynglŷn â sut bydd effaith y camau gweithredu’n cael ei mesur.

Ar gyfer yr ymweliad monitro hwn, darparodd yr awdurdod lleol ‘ddatganiadau sefyllfa’ a oedd yn crynhoi gwerthusiad o’r cynnydd oedd wedi cael ei wneud ers yr arolygiad, ym marn swyddogion. Rydym yn cytuno’n fras â barn yr awdurdod lleol ei hun am gynnydd, sy’n dangos bod swyddogion yn gwerthuso’u gwasanaethau yn fwy effeithiol nag ar adeg yr arolygiad.

Sefydlwyd prosesau amrywiol yn y blynyddoedd diwethaf i alluogi swyddogion i fonitro a gwerthuso camau gweithredu a nodi meysydd i’w gwella. Mae swyddogion arweiniol yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol am berfformiad eu meysydd neu’u timau gwasanaeth. Ceir llwybr effeithiol a graddedig ar gyfer uwchgyfeirio pryderon am ysgolion unigol a chynllunio’n gydweithredol ar draws gwasanaethau ac mewn partneriaeth â GwE i gefnogi gwelliant ysgolion. Er bod ansawdd yr adroddiadau a

baratowyd gan swyddogion i gefnogi prosesau gwerthuso wedi gwella, mae'r adroddiadau hyn weithiau'n canolbwyntio'n sylweddol ar weithgareddau a gwblhawyd heb ystyried yr effaith ar ddysgwyr yn ddigon da.

Newidiodd aelodaeth pwyllgor craffu dysgu gydol oes y Cyngor yn dilyn etholiadau lleol ym mis Mai 2022. Mae aelodau o'r pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant defnyddiol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl. Mae'r pwyllgor yn darparu lefel foddhaol o her i aelodau arweiniol y Cyngor o ran y cynllun gweithredu ôl-arolygiad a materion addysg ehangach.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**